

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Unwaith yn rhagor carwn eich gwahodd i dreulio ychydig o amser gyda mi'n ymdawelu ym mhresenoldeb yr Arglwydd. Nid yw pawb yn medru derbyn popeth ar-lein. Cofiwch am bobl felly a chofiwch y gallwch rannu'r "gwasanaeth" dros y ffôn gyda chyfaill a rhannu yng nghymdeithas yr Eglwys. Dau neu dri, a chwmni'r Iesu yn y canol. Dyna'r cyfan sydd ei angen!

## "I obaith bywiol..."

### GWEDDI

Arglwydd Bywyd, Arglwydd pob bywyd, yr Arglwydd sy'n cyfrannu Bywyd, y Tad, Mab ac Ysbryd Glân, a ddoi di atom heddiw i ddefro ynom obaith newydd a gweledigaeth newydd a chyfrannu i'n heneidiau sicrwydd etifeddiaeth gadarn a diogel trwy atgyfodiad Iesu Grist. Amen.

### EMYN – Caneuon Ffydd 336 Iesu, Ti yw ffynnon bywyd...

### DARLLENIAD – 1 Pedr 1:1-12

### MYFYRDOD

Os ydym wedi teithio dramor o gwbl, neu edrych ar arferion diwylliannau gwahanol ar y teledu, mae'n siŵr ein bod wedi meddwl bod arferion cenhedloedd eraill yn ddieithr ac yn "od". Ac i lawer ohonom mae'r wythnosau hyn o hunan ynysu oherwydd Cofid 19 yn od.

Mae'n "od" bod yn ein cartrefi heb fedru mynd yn rhydd o gwmpas ein gorchwylion fel o'r blaen. Mae'n od methu siopa, yn od i fethu teithio, methu trefnu gwyliau, methu mynd i oedfa, ac mae'n od i lawer eu bod yn treulio gymaint o amser yn yr ardd!

Ond meddylwch am foment am brofiad Tony Bullimore. Roedd yn cystadlu yn Ras y Vendee yn 1996-97. Golygai hynny hwylio ar ei ben ei hun o gwmpas y byd. Yng nghanol Môr y De cododd storm enfawr a ddifethodd waelod ei gwch yr Exide Challenger a'i thaflu ben i waered. Mewn munud, ar amrantiad, fe ganfu ei hun yn "ddieithriad" mewn amgylchiadau na fwriadwyd i'r un bod dynol oroesi ynddo. Er i adroddiadau'r newyddion awgrymu ei fod wedi colli ei fywyd yn y storm, llwyddodd am bedwar dydd a nos ynghanol y ddyrcin a'r dyfroedd rhewllyd i ganfod ffordd i fedru anadlu mewn poced o awyr o fewn y cwch.

Pan achubwyd ef gan long o llynges Awstralia dywedodd ei fod yn teimlo ei fod wedi "ei eni o'r newydd." Trodd cysgod marwolaeth yn fywyd. Anobaith yn troi yn obaith. Meddylwch am y wefr

a'r rhyfeddod pan glywodd sŵn cwch yn cyrraedd a lleisiau'n ei sicrhau ei fod ar fin gael ei achub. Diau ei fod wedi dweud rhywbeth fel, "Bendigedig fyddo capten HMAS Adelaide am fy achub!

Ac at "ddieithriaid sydd ar wasgar" yn eu gwlad eu hunain (1 Pedr 1:1) a'i ddiwylliant eu hunain yr ysgrifennodd Pedr. Yr hyn achosai'r "dieithrwch" oedd bod Duw ei hun wedi torri i mewn i'w bywydau. Yr oeddynt yn "etholedigion yn ôl rhagwybodaeth Duw y Tad", wedi eu neilltuo "trwy waith sancteiddiol yr Ysbryd" i berthynas arbennig "i fod yn ufudd i Iesu Grist ac i'w taenellu a'i waed." (ad 1-2)

Mae'n anorod y bydd i bob Cristion deimlo'r "dieithrwch" hwn yn ei brofiad. Ac yn sicr fe fydd pobl nad ydynt yn rhannu'n argyhoeddiad yn ystyried ein cred a'n hyder yn od! Yn Iesu Grist mae stori wahanol gennym, bywyd gwahanol, gwerthoedd gwahanol, cyfeiriad gwahanol, dyheadau gwahanol. Pobl a brofodd alluoedd tragwyddoldeb yn torri i mewn i'n heddiw ydym. Ac y mae'n dyheadau am gyfiawnder, heddwch a chyflawnder adferiad Duw yn ein gyrru'n ddyddiol i weddio, "deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd..."

A dyma, yn ôl Pedr, sut mae adnabod effeithiau'r bywyd newydd hwn.

Dechreuwa gyda chân o fawl. "Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist." Nid gyda grŵn y ddaear ond gyda ffrwydrad o ryfeddod y daw'r profiad o ras atom. Nid oes unrhyw ymfrost yn perthyn i ni am ein cyflawniad o ddyletswyddau crefyddol gerbron Duw. Pobl sydd wedi derbyn "o'i fawr drugaredd" ydym

Pobl ydym sydd wedi derbyn "gobaith bywiol" yn Iesu Grist. Mae'n obaith sy'n fyw ynddo'i hun. Mae'n obaith sy'n cyfrannu bywyd i'r rhai a gaiff ei feddiannu ganddo. Mae'n ddechrau newydd i ni pan fydd gobaith yn trechu anobaith, goleuni yn trechu'n tywyllwch, a grym y tragwyddol yn meddiannu'n presennol. Mae Pedr, fel yr Arglwydd Iesu Grist ei hun, yn disgrifio hyn fel profiad o gael "ein geni o'r newydd i obaith bywiol".

Yn wahanol i bob peth arall a feddwn mae'r "etifeddiaeth" y cawsom ein galw iddo yn etifeddiaeth na ellir na'i difrodi, na'i difwyno, na'i difa. Mae'n saff. Mae'n ddiogel, mae'n ffrwydrol, yn fyrlymus wahanol. Mae wedi ei chadw i ni gan ras Duw ac ym meddiant Duw.

Nid ffantasi yw sail ein hyder. Cadernid ein gobaith yw "atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw". Fe wyddai holl awduron y T.N. bwysigrwydd y bedd gwag. Nid i ffurf newydd o grefyddau y cawsom ein galw iddo ond i obaith bywiol a'i sail, ei chadernid, ei grym gorchfygol yw Atgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist yn y byd ac ynom yn y byd.

### GWEDDI

I ddechrau beth am dreulio ychydig o amser yn ail-ddarllen yr adnodau.

Gadewch i ni ofyn i'r Arglwydd ddangos i ni o'r newydd gyfoeth yr etifeddiaeth sy'n cael ei gynnig i ni drwy ffydd.

Arglwydd Iesu Grist, diolch am dy fawr drugaredd, diolch i Ti am dy allu mawr, diolch i ti am dy goncwest mawr, diolch i ti am dy gariad mawr. Caniatâ i minnau o'r newydd ganfod y gobaith a ddaw i'n heneidiau wrth i mi brofi o'th drugaredd di drwy Atgyfodiad Iesu Grist.

Gweddïwn am ffrwydrad o'r gobaith hwn yn ein heglwysi, ein gwlad, ein byd, ein bro. Gweddïwn dros ein teuluoedd, ein hanwyliaid.

Gweddïwn dros y rhai sydd mewn llywodraeth – dros rai sy'n gwybod mwy na ni am yr heriau sy'n ein hwynebu ond sy'n ei ffeindio'n anodd i ddod i benderfyniad. Rho iddynt dy ddoethineb di.

Gweddïwn dros feddygon, nyrsys, gofalwyr o bob math. Gweddïwn dros bobl fregus eu hiechyd corfforol, meddylol ac ysbrydol.

Cyflwynwn y cyfan i'th law dirion di yn Iesu Grist.

### Gweddï'r Arglwydd, Ein Tad

### EMYN – Caneuon Ffydd 557 O Gorfoleddwn oll yn awr

### Y FENDITH